Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Cynhadledd Fideo Zoom

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Hydref 2020

Amser: 09.02 - 10.11

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AS Siân Gwenllian AS Darren Millar AS
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru Bethan Garwood

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Dywedodd y Trefnydd wrth yr Aelodau ei bod wedi diweddaru teitl datganiad y Cwnsler Cyffredinol ar y papur Saesneg.

Dethol gwelliannau

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y gallai, oherwydd nifer y gwelliannau a gyflwynwyd yr wythnos hon, ddefnyddio ei phwerau i beidio â dethol gwelliannau lle mae'n credu ei bod yn briodol i gynnal busnes y Senedd yn briodol.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes hefyd fod dadl y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, 'Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf' hefyd wedi denu dau welliant, na fydd yn eu dethol yn unol â Rheol Sefydlog 12.23(iii).

Trefn yn y Siambr/ar Zoom

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd yn trin rhagor o achosion o Aelodau'n agor eu meicroffonau eu hunain pan na elwir arnynt, fel mater o drefn, ac y bydd yn gwneud cyhoeddiad i'r perwyl hwnnw ar hyn cyn y cyfarfod llawn heddiw.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y ddau ddiweddariad i'r amserlen tair wythnos:

Dydd Mawrth 13 Hydref 2020 –

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020
    - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Dydd Mawrth 3 Tachwedd

~~Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020 (15 munud)~~ – Gohiriwyd tan 24 Tachwedd

3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid gofyn i gadeiryddion pwyllgorau a allai eu dadleuon fod mewn slotiau 30 neu 45 munud, yn hytrach na 60, fel mater o drefn.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn yn yr amserlen:

Dydd Mercher 4 Tachwedd 2020 –

- Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2019-20 (30 munud)
- Dadl ar ddeisebau: addysgu hanes mewn ysgolion (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

4 Deddfwriaeth

4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 12 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

4.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 12 Hydref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

4.3 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Pysgodfeydd i graffu arno.

4.4 Rheoliadau Coronafeirws

Trafododd y Pwyllgor Busnes y papur a daeth i'r casgliad bod byrhau amserlenni cyffredinol ar gyfer trafod Rheoliadau, ar y cyd ag argaeledd cyfleoedd eraill i drafod Rheoliadau newydd, yn un ffordd ymlaen.

Dywedodd y Trefnydd wrth Reolwyr Busnes nad oedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020 wedi newid yn sylweddol o reoliadau Rhif 15, ac eithrio lleoliad.

Gofynnodd y Pwyllgor Busnes i swyddogion ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ganfod dull y gellir ystyried rheoliadau tebyg yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ar ôl iddynt ddod i rym yn y dyfodol.

5 Pwyllgorau

5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar y ddeiseb 'P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i lifogydd 2020 yn Rhondda Cynon Taf fel bod gwersi'n cael eu dysgu' yn yr hanner tymor nesaf, gyda'r dewis y bydd y ddadl yn un 30 munud o hyd.

Unrhyw Fater Arall

Seddi

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes na fydd yn caniatáu i seddau a ddyrennir i grwpiau plaid gydag Aelodau nad ydynt yn mynychu'r Siambr gael eu dyrannu i Aelodau grwpiau eraill neu Aelodau annibynnol.

Cyfarfod dros y tymor hwy

Trafododd y Rheolwyr Busnes y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Dywedodd y Llywydd y byddai'n trafod y mater gyda'r Prif Weinidog a gofynnodd i'r Rheolwyr Busnes drafod gyda'u grwpiau.